Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tudno
# Trinity Avenue
# Llandudno
# Conwy
# LL30 2SJ

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Tudno yn nhref arfordirol Llandudno. Mae’r ysgol yn gwasanaethu’r dref a’r ardal gyfagos. Mae 230 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae canolfan adnodd i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymedrol wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Darpariaeth ran amser ydyw ar gyfer disgyblion yr ysgol ac o ysgolion eraill yr awdurdod.

Mae’r ysgol yn derbyn disgyblion i’r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn naw dosbarth, sy’n cynnwys saith dosbarth un oedran a dau ddosbarth cymysg o ran oedran, yn cynnwys yr uned. Mae’r ddarpariaeth feithrin yn rhan amser.

Mae oddeutu 28% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol ar hyn o bryd, sy’n uwch na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw tua 2% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Ers Medi 2014, mae’r ysgol yn cael ei hystyried yn ysgol categori ieithyddol pedwar ac yn darparu 20% o’i haddysg i’r disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd, ynghyd ag ychydig iawn o ddisgyblion lle mae’r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Yn ogystal, mae ychydig iawn o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae tua 18% o’r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy’n cynnwys ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Nhachwedd 2008. Mae’r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Tudno yn 2014 - 2015 yw £4,381. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £15,278, a'r lleiafswm yw £3,190. Mae Ysgol Tudno yn y 27ain safle o'r 59 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredolyr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn cyfranogi'n frwdfrydig yn eu dysgu;
- bod agweddau disgyblion tuag at ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn gadarnhaol;
- bod rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn dda yn y gwersi;
- bod presenoldeb wedi bod gan mwyaf yn y 25% uchaf o'i gymharu â lefelau presenoldeb ysgolion tebyg; a
- bod yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r grant amddifadedd.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu medrau darllen ac ysgrifennu ar lefel briodol ar draws y meysydd dysgu;
- nid yw medrau darllen disgyblion wedi datblygu'n ddigon da yn y Gymraeg;
- nid yw medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi datblygu digon;
- nid oes gweithdrefnau asesu cadarn ar waith yng nghyfnod allweddol 2; ac
- nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, nac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw arweinwyr yr ysgol yn adnabod yr ysgol yn ddigon da;
- nid oes gweithdrefnau rheoli perfformiad yr athrawon sy'n weithredol yn flynyddol;
- nid yw'r ysgol wedi pennu targedau ar gwella'r ddarpariaeth a safonau;
- nid yw arweinwyr yr ysgol yn arsylwi gwersi, monitro cynlluniau gwaith a'u gweithrediad ar lawr dosbarth;
- nid yw'r arweinwyr wedi cyflwyno'r adroddiad hunanarfarnu presennol i'r corff llywodraethol; ac
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn llawer o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen ac ysgrifennu Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith

A2 Codi safonau ysgrifennu Saesneg ar draws yr ysgol

A3 Sicrhau bod medrau rhifedd a TGCh yn cael eu datblygu'n fwriadus yng nghyfnod allweddol 2

A4 Sicrhau bod yr addysgu yn herio disgyblion ac yn eu datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol

A5 Sicrhau bod gweithdrefnau asesu yn gadarn yng nghyfnod allweddol 2

A6 Datblygu rôl strategol yr uwch dîm rheoli gan ganolbwyntio ar sefydlu trefniadau grymus ar gyfer monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

A7 Cryfhau rôl y llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant a herio'r ysgol am ei pherfformiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfranogi'n briodol yn eu dysgu ac yn barod i gynnig atebion addas. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen addas a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Mae llawer yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa ehangach yng nghyd-destun y gwaith. Enghraifft o hyn yw'r gallu i gynnal trafodaeth aeddfed wrth i ddisgyblion drafod bywgraffiadau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon gan gymryd sylw addas o atalnodi, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gallu trafod cynnwys y llyfr yn synhwyrol gan ragfynegi ar sail yr hyn a ddarllenwyd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gywir gan ddangos dealltwriaeth briodol o'r testun. Maent yn darllen yn ystyrlon gan gynnal diddordeb y gwrandäwr yn dda. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio uwch fedrau darllen yn hyderus wrth gywain gwybodaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau ysgrifenedig megis llythyr, dyddiadur ac adroddiad. Mae llawer o ddisgyblion yn medru rhoi trefn ar wybodaeth gan ddefnyddio strwythur brawddegau syml. Yn gyffredinol, mae mwyafrif yn defnyddio cystrawen gadarn ac yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Mae ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n fwy estynedig ac yn atalnodi eu gwaith yn gyson. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol yn ddigon cyson ac nid ydynt yn defnyddio eu medrau llythrennedd ar y lefel briodol ar draws y meysydd dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol at wahanol ddibenion gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn datblygu eu syniadau'n ddiddorol ac yn estynedig. Mae disgyblion wedi dechrau defnyddio eu medrau darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn fwy cyson. Er enghraifft, mewn gwaith hanes, mae llawer yn gallu ysgrifennu llythyr personol gan ddefnyddio geirfa briodol i greu empathi. Yn gyffredinol, mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn daclus.

Mae agweddau disgyblion tuag at ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn gadarnhaol. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn dda i ystod o gyfarwyddiadau, cyfarchion a chwestiynau syml yn y Gymraeg. Mae'r ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn fwy hyderus yn y Gymraeg yn gallu cynnal sgwrs fer gan ddefnyddio geirfa benodol o fewn cyd-destun y dasg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ymadroddion a phatrymau syml yn eu gwaith ysgrifenedig, ond nid ydynt yn ysgrifennu'n annibynnol yn ddigon aml. Nid yw llawer o Gymry Cymraeg yn ysgrifennu darnau mwy estynedig yn gyson ac nid yw eu medrau darllen wedi datblygu ddigon yn y Gymraeg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i drefnu a defnyddio rhif yn effeithiol yn eu gweithgareddau dysgu. Mae llawer yn gallu defnyddio unedau cywir wrth fesur a phwyso gwrthrychau. Fodd bynnag, nid yw safonau ychydig o ddisgyblion mwy abl wedi eu datblygu'n llawn. Yng ngwaith thema'r dosbarth, mae llawer o ddisgyblion yn medru casglu, cofnodi a dehongli data yn briodol. Enghraifft o hyn yw disgyblion yn casglu data, a chreu graff wrth gynnal ymchwiliad traffig.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o batrymau rhif ac maent yn gwneud cyfrifiadau yn y pen ac yn egluro'r strategaethau a ddefnyddiant yn effeithiol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau datrys problemau yn hyderus gan ddefnyddio gwahanol strategaethau. Fodd bynnag, prin iawn yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig ar frig yr ysgol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u targedau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig, wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% isaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Saesneg. Bu tuedd ar i lawr dros y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol wedi bod yn y 50% uwch am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch dros y tair blynedd ddiwethaf mewn llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg wedi codi o'r 25% isaf i'r 25% uchaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol yn gyffredinol wedi bod yn y 25% isaf neu'r 50% is dros yr un cyfnod.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig dros y pedair blynedd ddiwethaf yn gyffredinol wedi amrywio o'r 50% is i'r 25% uchaf mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf am y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na'r lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg wedi bod yn y 25% uchaf am dair o'r pedair blynedd diwethaf tra mae perfformiad mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% isaf am ddwy o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi codi o'r 50% is i'r 50% uwch dros y ddwy flynedd diwethaf. Dros amser, mae perfformiad ar y lefel uwch wedi amrywio heb duedd amlwg.

Nid oes patrwm amlwg yng nghyflawniadau disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw cyflawniad y grŵp hwn o ddisgyblion cystal ar y lefelau uwch mewn Saesneg a mathemateg o gymharu â chyflawniad disgyblion nad ydynt yn gymwys.

**Lles: Da**

Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o ofynion byw'n iach trwy weithgareddau dosbarth a chlwb 'Bwyd o Bwys'. Trwy gymryd cyfrifoldeb am redeg y siop ffrwythau a thyfu llysiau yng ngardd yr ysgol, mae dealltwriaeth y disgyblion o fwyta'n iach yn datblygu'n dda.

Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais â'i gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Mae llawer o'r disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn cadw ar dasg am gyfnodau penodol. Fodd bynnag, nid yw medrau annibyniaeth disgyblion ar draws yr ysgol wedi datblygu digon. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol yn eu grwpiau ac yn ymateb yn briodol i'w tasgau, ond nid yw gallu disgyblion i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi datblygu cystal.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb yr ysgol wedi bod gan mwyaf yn y 25% uchaf o'i gymharu â lefelau presenoldeb ysgolion tebyg.

Trwy waith y cyngor ysgol, pwyllgor eco a phwyllgor masnach deg, mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau cadarn sy'n effeithio ar fywyd yr ysgol, ac maent yn ymfalchïo yn hyn. Enghraifft o hyn yw eu cyfraniad i hyrwyddo pwysigrwydd masnach deg. Mae'r disgyblion yn cyfrannu effeithiol i'r gymuned leol drwy amrywiaeth o weithgareddau megis ymweld â busnesau lleol a chartref henoed.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn y profiadau dysgu. Caiff profiadau'r disgyblion eu cyfoethogi'n briodol trwy ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn sicrhau bod holl agweddau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, megis cerddoriaeth, daearyddiaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu(TGCh) yn cael eu datblygu'n llawn. Nid yw'r ysgol ychwaith wedi cynllunio i sicrhau bod egwyddorion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi eu hymgorffori yn y cynlluniau gwaith. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau'n ddigon llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth dda ''r disgyblion hynny sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog yn eu herio a'u hymestyn yn ddigon effeithiol nac yn ddigon cyson.

Mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd drwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi ei ymgorffori'n glir yn y cynlluniau. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd na thechnoleg gwybodaeth (TGCh) yn llawn. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar waith yn yr ysgol ond prin iawn yw'r defnydd a wneir o'r ardal tu allan.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau llafar Cymraeg y disgyblion a'r Cwricwlwm Cymreig yn dda. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg ac mae rôl y llysgenhadon Cymraeg yn rhoi cyfle gwerthfawr i ddisgyblion ar frig yr ysgol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gystadlu mewn Eisteddfodau ac ymweld â mannau hanesyddol Cymru.

Trwy waith y pwyllgor eco, mae'r ysgol yn gweithredu arferion cynaliadwy gwerthfawr megis ailgylchu deunyddiau, arbed ynni a phrosiect 'Dim Sbwriel'. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion yn addas o bwysigrwydd gweithredu'n gynaliadwy.

Yn sgil y gwaith thema, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang drwy gymharu Tsiena â'r ardal leol ac i ymchwilio i wledydd Ewropeaidd.

**Addysgu: Digonol**

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn creu perthynas dda â'r disgyblion. Maent yn cynllunio profiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn cadw'r disgyblion ar dasg yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf o athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o gynorthwywyr dosbarth i gefnogi'r dysgwyr.

Mewn llawer o'r gwersi, mae cyflwyniadau'n fywiog ac mae athrawon yn holi'n effeithiol er mwyn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae gorarwain gan athrawon a gorddibyniaeth ar daflenni. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu.

Mae bron pob athro yn rhoi adborth cyson ar lafar i'r disgyblion ac yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau ysgrifenedig bob amser yn cyfeirio at y meini prawf llwyddiant ac nid ydynt yn nodi'r hyn mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella yn ddigon clir, yn enwedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae mwyafrif o athrawon yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith cyfoedion.

Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn cadw cofnod defnyddiol o ddatblygiad disgyblion ac wedi llunio proffiliau unigol i gofnodi cynnydd pob disgybl. Nid yw'r arfer dda hon wedi ei lledaenu ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw cysylltiadau rhwng asesu, cynllunio a chyflwyno gwersi yn ddigon cryf.

Nid yw'r adroddiadau i rieni a gwarchodwyr ar ddiwedd y flwyddyn yn nodi'r camau sydd angen i'r disgybl eu gwneud er mwyn datblygu ymhellach yn ddigon clir.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Hyrwyddir ymddygiad da yn effeithiol gan wobrwyo disgyblion mewn gwasanaeth wythnosol sy'n dathlu cyrhaeddiad, ymroddiad ac ymddygiad y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda drwy wasanaethau dyddiol ar draws yr ysgol. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli sy'n cefnogi iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn cysylltu'n rheolaidd ag asiantaethau arbenigol megis yr heddlu, gwasanaethau iechyd, seicolegol, cwnsela a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cefnogi disgyblion bregus. Mae ansawdd y cymorth ar gyfer disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol yn dda ac mae'n datblygu eu hannibyniaeth fel disgyblion yn effeithiol iawn. Mae hyn yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus iawn yn yr uned a leolir ar safle'r ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu disgyblion yn gynnar drwy ddadansoddi data a chanlyniadau profion mewnol. Rhennir gwybodaeth gyda'r athrawon yn aml er mwyn sicrhau cynllunio addas ar gyfer y disgyblion hyn. Mae'r ysgol yn defnyddio rhaglen ymyrraeth addas er mwyn datblygu medrau llythrennedd unigolion. Gwneir defnydd da o'r athrawes gynhwysiant ymgynghorol er mwyn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cydlynydd yn tracio cynnydd y disgyblion ac yn dadansoddi canlyniadau profion yn effeithiol. Mae hyn yn rhoi trosolwg cadarn o gynnydd unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos a chroesawgar a cheir awyrgylch cynnes ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hybu cydraddoldeb yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl, ac mae ethos cefnogol ymysg y staff yn sicrhau ymddygiad da ar draws yr ysgol. Mae goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol yn cael sylw priodol drwy waith thema.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r adeilad ond nid oes digon o ddefnydd o'r tu allan i hyrwyddo egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd pwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu. Gwneir defnydd da o gyfleusterau chwaraeon yr ardal i gyfoethogi'r cyfleoedd a ddarperir yn yr ysgol. Mae arddangosfeydd lliwgar ac ysgogol ym mhob dosbarth ac mewn ardaloedd cyffredinol sy'n dathlu gwaith a llwyddiannau'r disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau. Mae eu hansawdd yn dda a chânt eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi addysgu a'r dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r pennaeth newydd wedi cychwyn datblygu cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli newydd a gosod sylfeini ar gyfer datblygu rôl pob aelod. Bellach, mae gan yr ysgol strwythur rheoli addas ac mae swydd ddisgrifiadau athrawon yn adlewyrchu eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae ethos o gydweithio brwdfrydig ymysg yr arweinyddiaeth a'r staff, gyda'r athrawon yn dechrau gweithio mewn timau ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau hyn yn ddiweddar, ac nid yw arweinwyr yr ysgol wedi cael digon o effaith yn mynd i'r afael ag agweddau y mae angen eu gwella. O ganlyniad i ddiffyg monitro cynlluniau gwaith a'u heffaith, nid yw arweinwyr yr ysgol yn ymwybodol o'r bylchau pwysig yn y profiadau dysgu sy'n cael eu cynnig i'r disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi ymateb yn fuan i'r angen i sefydlu trefniadau rheoli perfformiad ymysg yr uwch dîm rheoli gan osod targedau pwrpasol er mwyn datblygu eu medrau a chyfrifoldebau. Serch hynny, nid yw'r arweinyddiaeth wedi sicrhau bod gweithdrefnau rheoli perfformiad yn weithredol ar gyfer gweddill y staff. Nid yw perfformiad yr athrawon yn cael ei reoli'n flynyddol ac nid oes targedau wedi eu pennu er mwyn gwella'r ddarpariaeth a safonau.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac yn dechrau datblygu eu rolau a deall eu cyfrifoldebau. Mae'r llywodraethwyr wedi cychwyn ymweld â'r ysgol i edrych ar agweddau ar y ddarpariaeth ac i wrando ar ddisgyblion yn darllen. Serch hynny, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon da o berfformiad yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r corff llywodraethol yn gallu herio'r ysgol na gweithredu'n ddigon effeithiol fel cyfaill beirniadol.

Nid yw'r corff llywodraethol wedi chwarae rhan yn y broses o lunio'r adroddiad hunanarfarnu na gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Nid ydynt wedi dal yr ysgol i gyfrif am y safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, na sicrhau bod llawer o argymhellion yr arolygiad blaenorol wedi eu cyflawni.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol adroddiad hunanarfarnu sy'n seiliedig ar godi safonau. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn rhy hir ac nid yw'r arweinwyr wedi adnabod yr agweddau pwysig sydd angen eu gwella o ran y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn dangos bod yr arweinwyr newydd yn adnabod yr ysgol yn ddigon da.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o'r data ond nid yw gweddill yr adroddiad wedi ei seilio ddigon ar dystiolaeth uniongyrchol. Nid yw arweinwyr yr ysgol yn arsylwi gwersi, monitro cynlluniau gwaith na gwirio a yw'r cynnwys yn cael ei gyflwyno ar lawr y dosbarth. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i farn staff, disgyblion a rhieni.

Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn nghynllun datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad wedi adnabod yr holl agweddau pwysig sydd angen eu gwella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol priodol sy'n cyfrannu at wella safonau lles y disgyblion yn dda. Mae ganddi berthynas effeithiol gyda rhieni. Caiff gwybodaeth ei rhannu'n briodol trwy gylchlythyron rheolaidd. Yn ddiweddar, sefydlwyd fforwm rhieni lle mae rhieni yn cyfarfod i drafod eu syniadau a chwarae rôl fwy blaenllaw ym mhenderfyniadau'r ysgol. Mae hyn wedi arwain at wella diogelwch ar safle'r ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â'r gymuned sy'n cynnig profiadau gwerthfawr iddynt. Cynhelir gwasanaethau diolchgarwch yn flynyddol yn y capel neu'r eglwys leol. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu iddi.

Mae trefniadau pontio rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd yn effeithiol, yn cynnwys ymweliadau gan staff a disgyblion. Mae hyn yn sicrhau trosglwyddo esmwyth wrth i'r disgyblion symud o'r sector cynradd i'r uwchradd.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ffurfio nifer o bartneriaethau gydag ysgolion y clwstwr a thu hwnt i rannu arfer dda. Mae hyn wedi arwain at wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog ac i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Fodd bynnag nid yw'r partneriaethau hyn wedi cael digon o amser i gael effaith ar y ddarpariaeth a ddeilliannau'r disgyblion.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus iawn gyda nifer o wasanaethau’r awdurdod er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol i ddisgyblion bregus ac i ddatblygu lles disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae’r ysgol wedi ei staffio’n briodol. Mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran darparu cymorth effeithiol i grwpiau o ddisgyblion ac unigolion. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o’r grant amddifadedd, a chaiff y ddarpariaeth a’r gwariant ei fonitro’n ofalus gan arweinwyr yr ysgol.

Gwna’r athrawon ddefnydd addas o’u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Yn ddiweddar, mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i staff yr ysgol. Mae’r athrawon wedi elwa ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant mewn meysydd penodol ac i arsylwi ar arfer dda mewn ysgolion eraill.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu’n briodol â blaenoriaethau ar gyfer lles y disgyblion a chodi safonau. Mae’r gyllideb yn cael ei monitro’n addas gan arweinwyr yr ysgol a’r awdurdod lleol.

O ystyried cyflawniad disgyblion dros gyfnod, digonol yw’r gwerth am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622061 - Ysgol Tudno**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 242 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 25.1 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 29 | 29 | 26 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 75.9 | 75.9 | 53.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 29 | 26 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 86.2 | 79.3 | 53.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 17.2 | 31.0 | 34.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 29 | 26 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 86.2 | 89.7 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 13.8 | 17.2 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 29 | 26 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 86.2 | 89.7 | 96.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.7 | 27.6 | 34.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6622061 - Ysgol Tudno**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 242 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 25.1 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 31 | 28 | 27 | 25 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 77.4 | 92.9 | 85.2 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 28 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 77.4 | 92.9 | 88.9 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.8 | 25.0 | 33.3 | 32.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 28 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.3 | 96.4 | 92.6 | 84.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 45.2 | 25.0 | 63.0 | 44.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 28 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.3 | 96.4 | 92.6 | 84.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 12.9 | 14.3 | 33.3 | 24.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 108 | 105<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 106 | 103<br>97%<br>92% | 3<br>3%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 108 | 102<br>94%<br>97% | 6<br>6%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 107 | 102<br>95%<br>97% | 5<br>5%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 108 | 105<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 106 | 99<br>93%<br>96% | 7<br>7%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 107 | 107<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 108 | 104<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 104 | 93<br>89%<br>91% | 11<br>11%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 107 | 95<br>89%<br>95% | 12<br>11%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 104 | 68<br>65%<br>77% | 36<br>35%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 105 | 90<br>86%<br>84% | 15<br>14%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |
| Margaret Watkins | Arolygydd Lleyg |
| Catrin Pritchard | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iona Hughes | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.